Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

## Disgrifiad o'r Swydd

**1 Atebolrwydd**

- I'r Cyngor Llawn

**2 Diben y Swydd a'r Gweithgareddau**

- **Cynnig arweinyddiaeth a chyfeiriad**
  - Rheoli cyfarfodydd yn hyderus ac yn effeithiol i hwyluso cynhwysiant, cyfranogiad a gwneud penderfyniadau eglur
  - Arwain y pwyllgor wrth ei waith yn:
    - Dynodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
    - Adolygu'r ddarpariaeth staff, llety ac adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, gan sicrhau bod y rhain yn ddigonol
    - Cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r cyngor llawn mewn perthynas â'r uchod
    - Penodi is-bwyllgorau a chadeiryddion is-bwyllgorau i gynnal swyddogaethau a ddirprwyir gan y pwyllgor
    - Ystyried adroddiadau a baratowyd gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
    - Datblygu cymorth aelod a strategaeth ddatblygu'r Awdurdod
    - Sicrhau bod gan aelodau fynediad at lefel resymol o hyfforddiant a datblygiad fel y'i disgrifiwyd yn strategaeth datblygu aelodau'r Awdurdod ac yn Siarter Cymorth a Datblygu Aelodau Cymru.
    - Sicrhau bod cyllideb ddigonol ar gyfer datblygu aelodau
    - Sicrhau bod gan aelodau fynediad at gynllunio datblygiad personol ac adolygiadau datblygiad personol blynyddol
  - Arddangos gonestrwydd a di-dueddrwydd wrth wneud penderfyniadau sy'n unol â'r gofynion cyfreithiol, cyfansoddiadol a pholisi
- **Hyrwyddo rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
  - Gweithredu fel llysgennad ar gyfer y pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, gan hwyluso dealltwriaeth o'r swydd
  - Gweithredu o fewn gofynion technegol, cyfreithiol a gweithdrefnol i oruchwylio swyddogaethau'r pwyllgor mewn modd teg a chywir

- Sicrhau manylder a gwrthrychedd yn y pwyllgor, gan dderbyn ac ymateb i gyngor proffesiynol wrth gynnal cyfarfodydd

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a phartneriaethau**

    - Datblygu enw da a gonestrwydd y pwyllgor a'i benderfyniadau
    - Deall swyddi aelodau, swyddogion a phartïon allanol sy'n gweithredu o fewn maes cyfrifoldeb y Gwasanaethau Democrataidd
    - Hyrwyddo a chefnogi llywodraethu da'r Cyngor a'i waith
    - Cefnogi'r rhwydweithiau Cymorth Aelodau CLILC yn ôl yr angen

**3. Gwerthoedd**

Bod wedi ymrwymo a dangos y gwerthoedd canlynol yn gyhoeddus:

- Bod yn agored ac yn dryloyw
- Gonestrwydd ac unplygrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Arweinyddiaeth gynhwysol
- Adeiladu consensws